ExpedFest

Canolfan Ddarganfod Margam | De Cymru

Dydd Sadwrn 28ain – dydd Sul 29ain Hydref 2023

Hyfforddiant Alldeithiau i Arweinwyr Gwobr Dug Caeredin

Cyflwyniad

Mae ein digwyddiadau hyfforddi ExpedFest yn helpu Arweinwyr a Gwirfoddolwyr Gwobr Dug Caeredin i ennill cymwysterau a phrofiad i'w cefnogi gyda chynnal adran Alldaith y Wobr.

Daw Arweinwyr ynghyd o bob rhan o Gymru i ddysgu sgiliau awyr agored ac alldeithiau newydd, neu i weithio tuag at ennill cymwysterau i'w galluogi i arwain pobl ifanc yn yr awyr agored.

Yn sgil llwyddiant ein ExpedFest yng Ngogledd Cymru, rydym yn falch o gynnig digwyddiad ychwanegol eleni yng **Nghanolfan Ddarganfod Margam**.

Mae'r ganolfan yn rhoi mynediad i diroedd helaeth i gynnal gweithgareddau a bydd y cyrsiau'n cael eu cynnal gan ddarparwyr gweithgareddau awyr agored profiadol.

Mae pob cwrs yn dechrau am **9:00am** ddydd Sadwrn.

Cyfleoedd Hyfforddi

P'un ai ydych chi'n newydd i Wobr Dug Caeredin, neu'n arweinydd profiadol i'r Wobr sy'n awyddus i fireinio'ch sgiliau, gallwch ddewis un o'r cyfleoedd hyfforddi bendigedig sy'n cael eu cynnig gennym.

Nifer gyfyngedig o lefydd sydd ar gael ac rydym yn disgwyl i'r tri chwrs fod yn boblogaidd iawn felly gwnewch gais nawr er mwyn osgoi cael eich siomi!

Gwiriwch fod y cwrs y byddwch yn ei fynychu yn bodloni anghenion eich sefydliad ar gyfer arwain grwpiau - nid Gwobr Dug Caeredin sy'n gosod y gofynion o ran cymwysterau ar gyfer alldeithiau.

Ymgeisiwch Nawr!

Ieuenctid Heb Gyfyngiadau

Cymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored

£75 | Dibreswyl
£135 | Preswyl

Mae hwn yn gwrs delfrydol i unrhyw aelodau staff neu wirfoddolwyr sy'n cefnogi neu'n cynnal alldeithiau yn yr awyr agored. Bydd y cwrs yn cyflwyno'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch er mwyn ymateb i argyfyngau yn yr awyr agored.

Mae cwrs 16 awr ar Gymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored yn ofynnol yn aml er mwyn cadw cymwysterau awyr agored eraill yn weithredol ac yn gyfredol.

Nid oes unrhyw ragofynion ar gyfer y cwrs hwn, ond dylech fod yn cefnogi neu'n bwriadu cefnogi cyfranogwyr ar Alldeithiau Gwobr Dug Caeredin er mwyn gallu mynychu'r cwrs yn y digwyddiad hwn.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn gyda'r holl adnoddau sydd ar gael **yma**.

Arweinydd Gwersylla

£50 | Dibreswyl

Cymhwyster ar gyfer pobl sydd eisiau goruchwylio grŵp gwersylla ydy'r cymhwyster Arweinydd Gwersylla a bydd yn cynorthwyo'r cyfranogwyr i ddatblygu eu hyfedredd gwersylla.

Mae yna asesiad undydd, gydag eDdysgu dewisol o flaen llaw a fydd yn galluogi'r ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â maes llafur y cwrs cyn yr asesiad.

Rhaid i chi:

- **gofrestru ar y cynllun** gyda Mountain Training. (£20)
- fod yn 18 oed o leiaf.
- fod wedi cynnal o leiaf 5 gwersyll dros nos.
- fod wedi cynorthwyo / goruchwylio o leiaf 2 wersyll grŵp.
- fod wedi mynychu a chwblhau cwrs cymorth cyntaf gydag o leiaf un diwrnod llawn o hyfforddiant ac asesu.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn gyda'r holl adnoddau sydd ar gael **yma.**

Bwyd a Llety

Os oes llety wedi'i gynnwys yn eich cwrs, bydd cinio, pryd gyda'r nos a brecwast a chinio ddydd Sul wedi'u cynnwys.
Mae'r llety yn cynnwys amrywiaeth o ystafelloedd a rennir; os byddwch yn mynychu gyda chydweithiwr neu rywun rydych yn ei nabod, gallwch ofyn am gael rhannu gyda nhw ar y ffurflen gais.
Darperir ar gyfer unrhyw anghenion deiet, a bydd y wybodaeth honno'n cael ei chasglu cyn y digwyddiad.

Newydd i Alldeithiau

£60 | Preswyl yn unig

Wedi'i gynllunio ar gyfer rhai sy'n newydd i'r adran alldeithiau nad oes ganddynt lawer o brofiad yn yr awyr agored. Bwriad y cwrs rhagarweiniol hwn ydy datblygu'ch sgiliau a'ch hyder yn yr awyr agored, gan gynnwys sgiliau cyfeiriannu personol, diogelwch ar fryniau, cyflwyniad i git a chyfarpar arweinyddion, a chrefft gwersylla. Y nod yw eich gosod chi ar y llwybr iawn tuag at fynychu cwrs Hyfforddiant Arweinydd yr Iseldir yn y dyfodol wrth i chi ddechrau ar eich taith i fod yn gymwys i arwain grwpiau yn yr awyr agored.

Nid oes unrhyw ragofynion ar gyfer y cwrs hwn, ond dylech fod yn cynllunio i arwain cyfranogwyr ar Alldeithiau Gwobr Dug Caeredin yn y dyfodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu. Cwrs preswyl yn unig yw hwn er mwyn caniatáu i ni gynnal sesiwn gyda'r nos.

Ymgeisiwch Nawr!

Dim ond yr unigolyn sy'n mynychu ExpedFest ddylai lenwi'r ffurflen hon.

E-bost: Wales@DofE.org
Ffôn: 01874 623086

Mae Gwobr Dug Caeredin yn Elusen Gofrestredig Rhif: 1072490, ac yn yr Alban: Rhif: SC038254, ac yn Gorfforaeth Siarter Frenhinol Rhif: RC000806